Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

# Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN13 - Olew Coginio Gwastraff

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Fiona Wheatley |
| **Cymeradwywyd gan:** | Fiona Abbott |
| **Dyddiad Adolygu:** | 09/11/2018 |

| **Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff WMGN13<br>Olew Coginio Gwastraff** | |
|---|---|
| Lleoliad Cynhyrchu | Ceginau a Mannau Gwerthu Bwyd |
| EWC | 20-01-25 |
| Math | Gwastraff a Reolir |
| Dull Gwaredu | Wedi'i ddidoli ar gyfer ailgylchu |
| Math o Fin/Sach | Drwm metel â chorcyn |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau cyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddidoli ac y gwaredir arno drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai nad oes unrhyw ddewis arall.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddidoli ei gwastraff cyn gwaredu arno a chanolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastig, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn gwaredu arnynt yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Lloegr a Chymru) 2011. Yn ôl y rheoliadau, rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr, ar wahân er mwyn sicrhau ansawdd uchel y deunydd wedi'i ailgylchu.

Gellir troi olew coginio gwastraff yn fathau gwahanol o fiodanwyddau y gellir eu defnyddio yn lle disel traddodiadol. Ni ddylid gwaredu ar olewau coginio gan ddefnyddwyr masnachol, megis arlwywyr, gyda'r ffrwd wastraff gyffredinol. Nid yw'r olewau gwastraff yn beryglus nac yn wastraff arbennig, ond mae'r Ddyletswydd Gofal yn berthnasol iddynt. Gellir casglu'r olewau gwastraff hyn gan gontractwyr arbenigol a'u troi'n fiodanwyddau gan weithgynhyrchwyr.

Wrth storio olewau coginio gwastraff cyn gwaredu arnynt, rhaid dilyn yr arweiniad ar gyfer Atal Llygredd 8: Dulliau diogel o storio a gwaredu ar olewau gwastraff

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

Gellir rhoi olew coginio gwastraff yn ôl yn y cynwysyddion cyflenwi gwreiddiol, gan sicrhau bod y caead yn cael ei sgriwio'n dynn. Dylai'r cynwysyddion gael eu storio'n bell o ddraeniau agored ac o fewn hambwrdd gorlifo a dylid eu labelu'n glir fel olew gwastraff coginio. Dylai staff sy'n ymdrin ag olewau gael eu hyfforddi sut i ymateb i ollyngiadau a dylai fod offer ymateb i ollyngiadau gan leoliadau sy'n cynhyrchu symiau sylweddol. Dylid trefnu casgliadau rheolaidd gyda'r contractwr er mwyn osgoi cronni symiau mawr. Dylid gosod arwyddion amlwg ar leoliadau storio.

Rhaid i'r holl Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff papur gael eu cadw'n lleol gan y cynhyrchydd gwastraff Chartwells.

## Costau Gwaredu

| |
|---|
| Nid oes cost ar gyfer gwaredu olew coginio a ddefnyddiwyd o gyfleusterau arlwyo. Rhaid i'r holl Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff ar bapur gael eu cadw'n lleol gan y gweithdrefnau gwastraff, a rhaid darparu copi electronig i Dîm Gweithrediadau'r Campws. Rhaid cadw'r rhain am o leiaf 3 flynedd, yn unol â Rheoliadau Dyletswydd Gofal. |
| **Am arweiniad pellach, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk** |


cooking oil